

Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Cylch Gorchwyl

Diben

Caiff y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ei ddefnyddio i lywio Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Diben y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid yw rhoi cyngor a chymorth proffesiynol i lywio'r ffordd y caiff yr adolygiad ei gynnal. Bydd y grŵp hefyd yn galluogi AGIC i ymgysylltu â sefydliadau allweddol a rhannu canfyddiadau o bwys o'r adolygiad.

Y dull o weithio

Caiff y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ei gadeirio gan AGIC. Mae ei aelodau wedi'u nodi isod.

Bydd y grŵp yn cyfarfod ar adegau allweddol drwy gydol yr adolygiad. Caiff dirprwyon eu derbyn os na fydd aelodau yn gallu bod yn bresennol.

Mae'n bosibl y bydd y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid yn argymhell bod AGIC yn gwahodd arbenigwyr eraill o Lywodraeth Cymru a chyrff allanol i lywio trafodaethau'r grŵp.

Anogir aelodau a swyddogion AGIC i gyfathrebu'n rheolaidd rhwng cyfarfodydd er mwyn ceisio neu roi cyngor a gwybodaeth a/neu herio agweddau penodol ar y prosiect.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, mae'n bosibl y daw AGIC â'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ynghyd unwaith eto ar unrhyw adeg i lywio ei gwaith.

Trefniadau ymgynghori

Bydd disgwyl i aelodau o'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ymgynghori â'u sefydliadau eu hunain ar agweddau gwahanol ar drafodaethau'r grŵp a sicrhau bod unrhyw sylwadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.

Trefniadau adrodd

Trafodir ac adroddir ar y cyngor a'r cymorth a gynigir gan y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid yn ystod cyfarfodydd bwrdd prosiect mewnol AGIC er mwyn llywio'r ffordd y caiff yr adolygiad ei gynnal.

Caiff adborth perthnasol gan y Panel Cynghori ei rannu â'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.

Amserlen

Dechreuodd yr adolygiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth ym mis Mehefin 2019 a daw i ben yn ystod haf 2020.

Rydym yn rhagweld y caiff tri neu bedwar cyfarfod rhanddeiliaid eu cynnal yn ystod yr adolygiad.

Adnoddau

Bydd AGIC yn trefnu ac yn cynnal cyfarfodydd y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.

Bydd AGIC yn dosbarthu papurau cyfarfodydd dros e-bost cyn y cyfarfod.

Caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Bydd cyfleusterau fideogynadleda ar gael lle y bo'n bosibl.

Bydd cymorth ar gyfer costau teithio a chynhaliadaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfarfodydd ar gael i unigolion a chynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector.

Aelodau'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid

Er mwyn sicrhau bod y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid yn cynnwys sampl gynrychioladol o randdeiliaid ac nad yw'n mynd yn rhy fawr, dylai un neu ddau gynrychiolydd fod yn bresennol o bob sefydliad.

Mae'r rhanddeiliaid a wahoddwyd yn cynnwys:

- Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Uned Gyflawni GIG Cymru
- Penaethiaid Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth GIG Cymru
- Rhwydwaith Mamolaeth GIG Cymru
- Rhwydwaith Newyddenedigol GIG Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – 1,000 o Fywydau

- Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion
- Coleg Brenhinol y Bydwreagedd
- Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth y DU
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant y DU
- Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolwyr Lleyg
- Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- NSPCC
- MIND
- Uned Gyflawni'r GIG
- Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Nyrsio
- Rhwydwaith Mamolaeth Newyddenedigol

Mae'n bosibl y caiff rhanddeiliaid eraill eu gwahodd i ymuno â'r Grŵp.

Swyddogion AGIC:

- Alun Jones, Dirprwy Brif Weithredwr (Cadeirydd ac Uwch Swyddog Cyfrifol)
- Rhys Jones, Pennaeth Uwchgyfeirio a Gorfodi
- Stuart Fitzgerald, Cyfarwyddwr Strategaeth ac Ymgysylltu

Bydd swyddogion eraill o AGIC yn bresennol yn ôl y gofyn yn unol ag eitemau'r agenda.

Uwchgyfeirio pryderon

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am ein dull o gwblhau ein gwaith, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn, drwy lythyr neu dros e-bost. Byddwn yn cydnabod eich pryder ac yn rhoi gwybod i chi pwy fydd yn delio ag ef.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Ffôn: 0300 062 8163
Parc Busnes Rhydycar	Ffacs: 0300 062 8367
Merthyr Tudful	E-bost: hiw@gov.wales
CF48 1U	

Chwythu'r chwiban

Os hoffech roi gwybod am achos o gamymddwyn yn y system gofal iechyd yng Nghymru, dilynwch y ddolen hon:

<https://hiw.org.uk/whistleblowing>